

Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Gorffennaf 12fed 2016 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Jean Roberts, Gwilym Davies, Geraint Jones, Gwynfryn Williams, Rhys Richards a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Geraint Davies, Gwynedd Jones, Arwel Davies, Euros Puw a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

i) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Asedau'r Cyngor.

Roedd lloches bws Parc wedi cael ei archwilio a phenderfynwyd ei adael am y tro gan nad oedd yn cael ei ddefnyddio gan y cyhoedd.

ii) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn.

i) Copi o agenda'r cyfarfod blyneddol a gynhelir, 29/7/16.

ii) Gwasanaeth y feddygfa – cytunwyd i dderbyn eu gwahoddiad i gynnwys enw'r Cyngor mewn llythyr i ddiolch i'r doctoriaid a staff y feddygfa am eu gwasanaeth amhrisiadwy.

b) Cyngor Gwynedd

i) Binau Halen - derbyniwyd llythyr yn gofyn i'r Cyngor Cymuned gadarnhau eu penderfyniad ynglŷn â'r gwasanaeth cyflenwi halen. Roedd y cynghorwyr dal yn erbyn talu'n ychwanegol am y gwasanaeth yma a chytunwyd i gydweithio gyda'r Bartneriaeth a gweddill Cynghorau Cymuned a Thref Penllyn i geisio cael cyfaddawd.

ii) Ymchwiliad Gorfodaeth Stryd - cais i'r Cyngor Cymuned gwblhau holiadur am wasanaeth gorfodaeth stryd y Cyngor. Cytunwyd i gwblhau'r holiadur.

iii) Mabwysiadu'r Cod ymddygiad – cytunwyd i dderbyn eu gwahoddiad i gynnwys enw'r Cyngor Cymuned yn eu hysbyseb i gadarnhau bod y Cod Ymddygiad newydd wedi cael ei fabwysiadu.

c) Amrywiol

i) Ombwdsmon – Copi o'i Adroddiad Blyneddol.

ii) Galwad Agored – Arloesi Gwynedd Wledig - gwahoddiad i gydweithio gyda AGW i dreialu a dysgu am fodelau gwahanol o drosglwyddo gwasanaethau i drigolion lleol. Cytunwyd y byddai Partneriaeth Penllyn yn addas ar gyfer y math yma o brosiect.

iii) Archif Gwefannau y D.U. – gwahoddiad i'r Cyngor gymryd rhan yn 'Archif We y D.U.' drwy archifo gwefan y Cyngor. Cytunwyd i fod yn rhan o'r cynllun ac arwyddo'r ffurflen ganiatâd.

iii) Ceisiadau Cynllunio.

Cafwyd cadarnhad bod y cais canlynol wedi cael ei ganiatáu:-

NP5/63/235A – Diwigio Amod Rhif 2 ar gais cynllunio blaenorol. Gorsaf Fedryddu Cynefail, Capel Celyn, Y Bala.

iv) Materion Ariannol.

Adroddiad Ariannol - monitro derbyniadau a thaliadau.

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Mehefin a chafwyd yn gywir.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

i) Cyflog y clerc (Ebr-Meh)

Derbyniwyd cais ariannol gan Shelter Cymru. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

v) Materion lleol.

Maes Parcio Y Plase.

Gofynnwyd i'r clerc anfon at Gyngor Gwynedd i'w hysbysu bod cryn ddryswch gyda'r drefn parcio newydd yn y Plase. Nid oedd ymwelwyr yn ymwybodol bod posib talu am arhosiad byr neu arhosiad hir ac yn aml yn talu'r ffi anghywir oherwydd y diffyg arwyddion i'w cynghori.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Medi 13eg yn Neuadd Maesywaen am 8.00y.h.